# Bwriadau Dysgu, Amcanion, Nodau a Meini Prawf Llwyddiant

slidesmania.com

# Nod y Seiswn

- Deall pwysigrwydd bwriadau dysgu, amcanion, nodau a meini prawf llwyddiant.
- Adnabod y gwahaniaethau rhyngddynt.
- Ymgyfarwyddo ar sut i'w llunio o fewn gweithgaredd.
- Eu defnyddio yn effeithiol mewn cynllun gwers.

slidesmania.com



# Tasg 1

Mae dwy funud gyda chi i dynnu llun ty.

Amserydd

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z

slidesmania.com

# Partneriaid Parablu: Gwerthuswch eich tŷ.

- Beth yw'r rhinweddau da am eich tŷ?
- Beth allwch chi wneud er mwyn gwella eich tŷ?

slidesmania.com

## Hunan asesu:

# Rhoi marc i'ch tŷ … a byddwch yn onest!

| | |
|---|---|
| • Ramp ar gyfer cadair olwyn | /30 |
| • Lle parcio ar gyfer yr anabl | /20 |
| • Yr ystafelloedd i gyd ar un llawr | /10 |
| • Planhigion a blodau yn yr ardd | /10 |
| • System intercom yn y prif ddrws | /20 |
| • Llwybr gwastad i'r sied | /10 |

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z

slidesmania.com

# Ond beth yw'r pwynt dwi'n ceisio gwneud?

'Mae angen i unrhyw ddysgwr i wybod beth maent yn dysgu ei wneud a beth yw'r llinyn mesur.'

(Gilbert, 2010)

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z

slidesmania.com

# Ond beth yw beth?

Mae deall y **gwahaniaeth** rhwng *pwrpas dysgu* (intention), *amcanion*, *nodau*, a *meini prawf llwyddiant* yn allweddol wrth gynllunio unrhyw wers.

slidesmania.com

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z



# Tynnu Llun Tŷ

Bwriad (Pwrpas y wers)

I ddatblygu sgiliau arsylwi a chynrychioli wrth dynnu llun adeiladau, gan ganolbwyntio ar fanylion, cymesuredd a llinellau persbectif

BWRIAD neu BWRPAS y wers

slidesmania.com



# Nod y wers

Creu llun manwl o dŷ gan ddefnyddio technegau tynnu llinell ac arsylwi'n ofalus ar siapiau ac elfennau pensaernïol



slidesmania.com



**Amcanion dysgu** (beth fydd y dysgwyr yn gallu ei wneud erbyn diwedd y wers)

Erbyn diwedd y wers, bydd y dysgwyr yn gallu:

~Arsylwi ac adnabod siapiau sylfaenol mewn adeilad (ffenestri, drws, to, waliau).

~Defnyddio llinellau syth a chymesuredd i greu llun realistig o dŷ.

~Defnyddio pensiliau o wahanol drwch i greu manylion a thonau.

~Ychwanegu elfennau creadigol i wneud y llun yn unigryw (e.e. gardd, cwmwl, pobl)



slidesmania.com



**Meini prawf llwyddiant** (sut byddwn ni'n gwybod eu bod wedi llwyddo)

Byddaf yn llwyddiannus os gallaf:

~Dangos fy mod wedi arsylwi'n ofalus ar fanylion y tŷ.

~Defnyddio llinellau clir, cymesur ac wedi'u rheoli.

~Ychwanegu manylion creadigol i wneud fy llun yn fynegiannol.

~Ystyried cynllun, gosodiad a chydbwysedd y ddelwedd



slidesmania.com

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z

# Oeddech chi'n gwybod?

- Nodwedd arwyddocaol o asesu ar gyfer dysgu yw rhannu bwriadau dysgu a'r canlyniadau dysgu disgwyliedig gyda'r disgyblion mewn ffordd glir ac amlwg.


Other Answers (7)

Oldest

Vile salad answered 7 years ago

Hmm it sounds like you're doing a teaching qualification. Good luck - I learned diddly-squat on my PGCE course, and only learned anything at all about teaching once I started my job. I don't envy you all that rubbish about learning objectives and stuff. My tip: a good desired "learning" outcome is for the children to work in silence for an hour.

Rate Comment

slidesmania.com

"At the end of the lesson, what do I want my students to know, to do or to understand which will take their learning on from where it is now?"

— Kerry (2002)

slidesmania.com




Penodol

Mesuradwy

Cyraeddadwy

Perthnasol

Amserol

slidesmania.com

# CAMPUS!

Gellir ystyried gosod targedau mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac ar sawl graddfa. Dywedir yn aml fod angen i dargedau fod yn 'GAMPUS' h.y. **C**yraeddadwy, **A**mserol, **M**esuradwy, **P**enodol, **U**chelgeisiol, **S**ynhwyrol.

LLYWODRAETH CYMRU

slidesmania.com

# CAMPUS

**Cyraeddadwy**

Gan y dysgwyr.

**Amserol**

O fewn cyfnod o amser – gwers, gweithgaredd.

**Mesuradwy**

Asesu cyrhaeddiad y dysgwyr.

slidesmania.com

# CAMPUS

## Penodol

- Datgan yn glir yr hyn sy'n ddisgwyliedig.

## Uchelgeisiol

- Yn briodol i lefel gallu a'u herio.

## Synhwyrol

- A yw'n dasg dilys? Pam?

slidesmania.com

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z



# Y cwestiwn mawr!

slidesmania.com

# Beth ydym ni'n mynd i ddysgu heddiw?












slidesmania.com

# 01

# Bwriad dysgu

Beth yw'r peth mawr rydych chi eisiau i'r dysgwyr ei ddeall neu allu ei wneud erbyn diwedd y wers?

Mae'n ateb y cwestiwn "Pam ydym ni'n dysgu hyn heddiw?"

slidesmania.com

# 02

# Nodau dysgu.

Dyma'r camau neu'r targedau penodol sydd yn arwain at gyflawni'r bwriad.

Maen nhw'n torri'r dysgu lawr i dargedau sy'n ymarferol.

slidesmania.com

# 03

# Amcanion dysgu

- Dyma'r **camau gweithredu** y byddwch chi'n eu cymryd *yn ystod* y wers i gyrraedd y nodau.

Yn aml, maent yn dechrau gyda berf weithredol (e.e. trafod, ysgrifennu, cymharu, dadansoddi).

slidesmania.com

# 04

# Meini Prawf Llwyddiant

- Dyma sut byddwch chi a'r dysgwyr yn gwybod eu bod wedi llwyddo.

Mae'n helpu iddynt hunanasesu ac adlewyrchu.

slidesmania.com

# Creu meini prawf llwyddiant



Creu Meini Prawf




slidesmania.com

# Eich cynllun gwers

Beth yn gwmws ydych chi'n bwriadu i'r dysgwyr ddysgu?

| |
|---|
| **Bwriad Dysgu**<br>*'Dylai hyn ganolbwyntio ar y dysgu gan y disgyblion yn ystod y wers, yn hytrach na'r hyn y byddant yn ei wneud, a dylai fod yn fyr, yn gyraeddadwy ac yn fesuradwy.'* (Crichton, H., a Mcdaid, A. 2016 t. *196)* |
| |
| **Meini prawf llwyddiant**<br>*Yr hyn mae angen i'r disgyblion ei ddangos i fodloni'r Bwriad Dysgu yn llwyddiannus.* |
| |

Beth yn gwmws sydd angen i'r dysgwyr wneud yn ystod y weithgaredd?

slidesmania.com

# Y DARLUN EHANGACH!

Ar ôl rhannu'r hyn y maent yn mynd i ddysgu, mae'n gwneud synnwyr i roi rheswm dros eu dysgu iddynt. Hynny yw, mae athrawon yn ateb y cwestiwn, 'Pam yr ydym yn dysgu hwn?'

Rydym yn dysgu hyn oherwydd ei fod yn rhywbeth y mae angen i ni fod yn gallu gwneud os ydym am fod yn llwyddiannus yn yr ysgol (sgiliau academaidd).

Rydym yn dysgu hyn oherwydd ei fod yn rhywbeth y mae angen i ni wybod amdano, ei ddeall neu allu ei wneud yn ein bywydau bob dydd (sgiliau bywyd).

slidesmania.com

# Rhowch gylfe i hunanfyfyrio.

“Pan fyddwn ni’n myfyrio, rydyn ni’n dysgu dwywaith – unwaith pan fyddwn ni’n gwneud, ac unwaith pan fyddwn ni’n meddwl am yr hyn a ddysgon ni” (Dewey 1859).



slidesmania.com

# Llyfryddiaeth.










slidesmania.com